| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **8 Mawrth 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO -<br>Y CWRT, 62 STRYD FAWR, Y BALA** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**CAIS**

Cafwyd cais i adolygu trwydded eiddo Y Cwrt, 62 Stryd Fawr, Y Bala gan John Alwyn Thomas, Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu, Cyngor Gwynedd.

Gwneir y cais hwn gan yr awdurdod trwyddedu sy'n gweithredu fel yr awdurdod cyfrifol dan Ddeddf Trwyddedu 2003. (Ychwanegodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 awdurdodau trwyddedu i'r rhestr o awdurdodau cyfrifol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ar 25 Ebrill 2012.)

Mae'r cais i adolygu'r drwydded eiddo yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu a ganlyn:
- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Y rheswm ar gyfer adolygiad yw:
- Cynnal gweithgaredd trwyddedig o ddarparu Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos nad yw'n cydymffurfio â'u trwydded.

Mae datganiadau tyst a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn datgan mai wrth ymateb i gwynion ynglŷn â sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Stryd Tegid ar 28/07/2012 y darganfuwyd bod Y Cwrt yn cynnal y gweithgaredd trwyddedig o ddarparu Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos. Nid yw trwydded eiddo Y Cwrt yn cynnwys darparu Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos.

I reoli achosion o sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Y Bala ac i sicrhau bod deilydd y drwydded yn cydymffurfio â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 mae'r ymgeisydd yn argymell y dylid diwygio'r drwydded fel a ganlyn:

| Gweithgaredd Trwyddedig | Trwydded Gyfredol | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|
| Cerddoriaeth Fyw tu mewn i'r Eiddo | Dydd Llun i Ddydd Sul 17:00 – 0:00 | Dim newid |
| Cerddoriaeth wedi'i Recordio | Dydd Llun i Ddydd Sul 17:00 – 0:00 | Dim newid |
| Mân-werthu Alcohol yn yr eiddo ac i fynd allan o'r eiddo | Dydd Llun i Ddydd Iau<br>11:30 – 02:00<br>Dydd Gwener i Ddydd Sul<br>11:30 – 03:00 | Dydd Llun i Ddydd Iau<br>11:30 – 02:00<br>Dydd Gwener i Ddydd Sul<br>11:30 – 02:00 |

| | Trwydded Gyfredol | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|
| **Oriau agor yr eiddo** | Dydd Llun i Ddydd Iau<br>11:30 – 02:30<br>Dydd Gwener i Ddydd Sul<br>11:30 – 03:30 | Dydd Llun i Ddydd Iau<br>11:30 – 02:00<br>Dydd Gwener i Ddydd Sul<br>11:30 – 02:00 |

Hefyd, bod cais i newid trwydded eiddo yn cael ei gyflwyno gan ddeilydd y drwydded fel bod darparu Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos yn cael ei ychwanegu i'r drwydded.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn derbyniwyd sylwadau gan Williams Homes (Bala) Ltd yn mynegi pryder ynglŷn â lefelau sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol tu allan i'r Cwrt.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais i adolygu'r drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003.